Amgueddfa Cymru – National Museum Wales

Cynllun Cydraddoldeb i Bobl Anabl

2008-2011

Cynnwys

1. Rhagair y Cyfarwyddwr Cyffredinol

2. Cyflwyniad

3. Ynglŷn ag Amgueddfa Cymru - National Museum Wales

4. Ein Gweledigaeth ar gyfer Cydraddoldeb i Bobl Anabl

5. Casglu data am gydraddoldeb

6. Ymgynghori

7. Asesu'r Effaith ar Gydraddoldeb i Bobl Anabl

8. Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb i Bobl Anabl

9. Adrodd ar Gynnydd y Cynllun Cydraddoldeb i Bobl Anabl

10. Cyhoeddi a Rhoi Cyhoeddusrwydd i'r Cynllun Cydraddoldeb i Bobl Anabl

Atodiadau

Atodiad A Swyddogaethau

Atodiad B Rhestr Flaenoriaethau Asesu'r Effaith ar Gydraddoldeb

Atodiad C Templed Asesu'r Effaith ar Gydraddoldeb

1. Rhagair y Cyfarwyddwr Cyffredinol

Dyma Gynllun Cydraddoldeb i Bobl Anabl cyntaf Amgueddfa Cymru, sy'n rhan o'n Polisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth cyffredinol. Nod y polisi yw sicrhau bod pob gweithiwr, darpar weithiwr ac ymwelydd yn cael ei drin mewn modd teg a chyfiawn, waeth beth yw ei oedran, anabledd, statws priodasol, cyfrifoldeb teuluol, hil, lliw, cefndir ethnig, cenedligrwydd, crefydd neu gredo, rhyw, hunaniaeth o ran rhywedd neu gyfeiriadedd rhywiol.

Mae'r Amgueddfa wedi ymrwymo i gyflawni ei dyletswyddau o dan ddeddfwriaeth cydraddoldebau ac i ddangos ei hymrwymiad trwy weithredu'r Cynllun Cydraddoldeb i Bobl Anabl hwn. Wrth gyflawni ei swyddogaethau, bydd yr Amgueddfa'n mynd ati i:

- gael gwared â gwahaniaethu ac aflonyddu anghyfreithlon
- hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl anabl a phobl eraill
- hyrwyddo agweddau cadarnhaol tuag at bobl anabl
- annog pobl anabl i gymryd rhan mewn bywyd cyhoeddus
- ystyried anableddau pobl, hyd yn oed os bydd hyn yn golygu trin pobl anabl yn fwy ffafriol na phobl eraill.

Ein nod yw prif ffrydio cydraddoldeb er mwyn sicrhau ei fod yn rhan ganolog o'r ffordd yr ydym yn gweithio. Trwy ganolbwyntio ar gydraddoldeb wrth lunio polisïau, darparu gwasanaethau ac wrth gyflogi pobl, gallwn gyfrannu at greu cymdeithas hygyrch a chynhwysol lle bydd pobl anabl a phobl nad ydynt yn anabl yn cael eu trin yn gyfartal bob dydd. Mae hyn yn egwyddor annatod ym mhob un o'n polisïau a dogfennau strategol allweddol ac yng Ngweledigaeth yr Amgueddfa ar gyfer y dyfodol.

Michael Houlihan
Cyfarwyddwr Cyffredinol

2. Cyflwyniad

Y ddyletswydd cydraddoldeb i bobl anabl ar gyfer y sector cyhoeddus

Am dros ddegawd mae'r llywodraeth wedi dangos ymrwymiad cryf i wella bywydau bob dydd a chyfleoedd bywyd pobl anabl ym Mhrydain. Mae'n cydnabod bod gan y sector cyhoeddus ran allweddol yn y gwaith o alluogi pob unigolyn anabl i gymryd rhan lawn mewn cymdeithas ac i gyfrannu i'r economi. Roedd Mesur Gwahaniaethu ar sail Anabledd y llywodraeth, a ddeddfwyd ym mis Rhagfyr 2006, wedi cryfhau Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995 drwy osod dyletswydd cydraddoldeb ar gyrff y sector cyhoeddus. Mae'r ddyletswydd hon yn gorfodi cyrff cyhoeddus i ddefnyddio dull rhagweithiol o hyrwyddo cyfle cyfartal i bobl anabl a hyrwyddo agweddau cadarnhaol tuag at bobl anabl.

Mae'r ddyletswydd newydd hon yn cynrychioli cryn newid mewn agwedd, o fframwaith cyfreithiol a oedd yn dibynnu ar gwynion unigolion anabl am wahaniaethu i gyd-destun lle mae'r sector cyhoeddus yn gweithredu fel asiant sy'n gweithio'n ddiwyd o blaid newid. Mae'r llywodraeth a'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (CCHD)[1] wedi pwysleisio bod rhaid i gyrff cyhoeddus brif ffrydio cydraddoldeb i bobl anabl yn eu swyddogaethau mewnol ac allanol, ac mae'r ddyletswydd yn darparu mecanwaith ar gyfer mynd i'r afael â gwahaniaethu sefydliadol a geir mewn polisïau, arferion a gweithdrefnau.

Mae'r ddyletswydd yn cynnwys dwy ran; y ddyletswydd gyffredinol a'r ddyletswydd benodol. Mae'r ddyletswydd gyffredinol yn gymwys i bob corff cyhoeddus ac yn seiliedig ar fodel cymdeithasol o anabledd sy'n nodi mai rhwystrau yn yr amgylchedd, agweddau cymdeithasol a pholisïau, arferion a gweithdrefnau sefydliadol sy'n gwneud pobl anabl yn anabl. Mae'r ddyletswydd yn ceisio dileu'r rhwystrau hyn drwy ofyn i sefydliadau fynd ati'n ddiwyd i wneud y canlynol:

- Hyrwyddo cyfle cyfartal i bobl anabl;
- Dileu gwahaniaethu anghyfreithlon yn erbyn pobl anabl
- Dileu aflonyddu sy'n gysylltiedig ag anabledd;
- Hyrwyddo agweddau cadarnhaol tuag at bobl anabl;

[1] Y cyn Gomisiwn Hawliau Anabledd oedd yn gorfodi'r Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd a'r Ddyletswydd Cydraddoldeb i Bobl Anabl. Ar 1 Hydref 2007, cyfunodd â'r Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol a'r Comisiwn Cyfle Cyfartal i ffurfio'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol.

- Annog pobl anabl i gymryd rhan mewn bywyd cyhoeddus;
- Cymryd camau i ystyried anableddau pobl anabl, hyd yn oed lle y mae hynny'n golygu trin pobl anabl yn fwy ffafriol na phobl eraill.

Er mwyn cyflawni'r ddyletswydd, mae angen i ni:

(i) Gynhyrchu a chyhoeddi cynllun cydraddoldeb i bobl anabl

Mae gofyn i ni baratoi cynllun sy'n cydymffurfio â chod ymarfer y ddyletswydd cydraddoldeb i bobl anabl, gan ddangos bod uwch reolwyr yn ymrwymedig i hyrwyddo cydraddoldeb i bobl anabl. Mae'n rhaid i'r cynllun gynnwys cynllun gweithredu sy'n gysylltiedig â blaenoriaethau strategol y sefydliad ac amserlen realistig i'w cyflawni.

(ii) Cyhoeddi adroddiad ar gynnydd

Rhaid gwneud hyn yn flynyddol a dylid diwygio ac adolygu'r cynllun bob 3 blynedd.

(iii) Cynnwys pobl anabl

Mae angen i ni ddangos sut mae pobl anabl a'u grwpiau cynrychiadol wedi bod yn rhan o'r broses o baratoi'r cynllun gweithredu. Mae'n arbennig o bwysig ein bod yn defnyddio arferion da ac yn cynnwys pobl anabl wrth ddatblygu a darparu'r cynllun, yn hytrach nag ymgynghori â nhw yn unig.

(iv) Asesu'r Effaith a'r Gydraddoldeb

Mae gofyn i ni bennu ein trefniadau ar gyfer asesu effaith polisïau ac arferion newydd a rhai sydd eisoes yn bodoli ar gydraddoldeb i bobl anabl. Bydd asesiad trylwyr yn ein galluogi i hyrwyddo cydraddoldeb a dileu gwahaniaethu.

(v) Casglu tystiolaeth

Mae gofyn i ni bennu pa dystiolaeth y byddwn yn ei chasglu ar anabledd sy'n gysylltiedig â chyflogaeth (recriwtio, datblygu a chadw staff) a darparu gwasanaethau. Mae'n bwysig bod gennym ni ddata cywir a chynhwysfawr ar gael fel ein bod yn gallu gweld lle mae anghydraddoldebau'n bodoli a gweithredu i fynd i'r afael â nhw. Bydd

hefyd yn ein galluogi i fonitro cynnydd a gwella perfformiad yn fwy cyffredinol.

Byddwn yn prif ffrydio cydraddoldeb i bobl anabl i'n holl benderfyniadau a gweithgareddau. Rhoir sylw arbennig i gydraddoldeb i bobl anabl wrth gyflawni ein gwaith os yw ein gwasanaethau, cyflogaeth neu waith yn effeithio'n wahanol ar bobl anabl, neu os nad yw pobl anabl yn cael eu cynrychioli'n llawn. Pan fyddwn yn gallu newid ein ffordd o weithio neu ein polisïau fel eu bod yn arwain at fanteision sylweddol i bobl anabl, bydd y newid hwn wedi ei gydbwyso ag ystyriaethau eraill.

Bydd yr Amgueddfa hefyd yn sicrhau bod sefydliadau eraill sy'n darparu swyddogaethau ar ein rhan yn rhoi sylw priodol i gydraddoldeb i bobl anabl a byddwn yn monitro eu perfformiad wrth geisio cyflawni'r Ddyletswydd.

Y ddogfen hon yw ein Cynllun Cydraddoldeb i Bobl Anabl cyntaf. Mae'n pennu sut rydym yn bwriadu mabwysiadu dull rhagweithiol o ymdrin â chydraddoldeb i bobl anabl a'i ymgorffori yn ein holl waith.

Model cymdeithasol o anabledd

Mae'r cod ymarfer ar gyfer Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995 yn egluro 'nad yw'r tlodi, anfantais ac allgau cymdeithasol a brofir gan lawer o bobl anabl yn ganlyniad anochel o'u nam na'u cyflwr meddygol, ond yn hytrach mae'n deillio o rwystrau o ran agwedd ac amgylchedd'. Hynny yw, mae'r model cymdeithasol yn nodi mai rhwystrau cymdeithasol ac economaidd sy'n gwneud pobl yn anabl, ac nid eu namau o reidrwydd. Er enghraifft, adeiladau, gwasanaethau neu wybodaeth wedi'u cynllunio'n wael, stereoteipiau neu agweddau negyddol sy'n cael effaith niweidiol. Mae ein cynllun yn derbyn hyn ac yn ceisio mynd i'r afael â'r rhwystrau hynny a fyddai'n gallu atal pobl rhag cyrraedd eu potensial fel unigolion.

Mae gwybodaeth bellach am fodel cymdeithasol anabledd ar gael ar wefan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol www.equalityhumanrights.com.

Rydym yn cydnabod bod anabledd yn amrywiol ac nad yw profiad unrhyw unigolyn anabl union yr un fath â phrofiad un arall. Rydym hefyd yn cydnabod bod llawer o ddefnyddwyr Iaith Arwyddion Prydain yn ystyried eu hunain fel lleiafrif ieithyddol yn hytrach na 'phobl anabl', a bod yn well ganddynt fodel diwylliannol sy'n pwysleisio byddardod fel

ffordd gadarnhaol o brofi'r byd yn weledol, yn hytrach na model meddygol sy'n pwysleisio'r gwahaniaeth corfforol.

3. Ynglŷn ag Amgueddfa Cymru - National Museum Wales

Sefydlwyd Amgueddfa Cymru gan Siarter Brenhinol yn 1907 ac mae wedi'i chofrestru fel endid cyfreithiol ac elusen dan yr enw hwn. Heddiw, y sefydliad hwn, sy'n rheoli saith amgueddfa genedlaethol ledled Cymru, yw Amgueddfa Cymru – National Museum Wales, neu Amgueddfa Cymru yn fyr.

Dyma'n Hamgueddfeydd:

- Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd
- Amgueddfa Lleng Rufeinig Cymru
- Sain Ffagan: Amgueddfa Werin Cymru
- Big Pit: Amgueddfa Lofaol Cymru
- Amgueddfa Lechi Cymru
- Amgueddfa Wlân Cymru
- Amgueddfa Genedlaethol y Glannau
- Y Ganolfan Gasgliadau Genedlaethol

Mae Amgueddfa Cymru yn elusen gofrestredig annibynnol a chaiff ei hariannu'n bennaf drwy gymorth grantiau gan Lywodraeth Cynulliad Cymru fel Corff a Noddir gan Lywodraeth y Cynulliad.

Ei hamcanion craidd yw 'datblygu addysg y cyhoedd'. Mae hyn yn cynnwys datblygu, gofalu am, astudio a chynnal mynediad i gasgliadau cenedlaethol Cymru er budd hirdymor cymdeithas. Mae'r Siarter (a adolygwyd yn 1991 a 2006) yn nodi y dylid cyflawni'r canlynol:

(i) yn gyntaf, drwy gynrychioli'n gynhwysfawr wyddoniaeth, celf, diwydiant, hanes a diwylliant Cymru neu sy'n berthnasol i Gymru, ac

(ii) yn gyffredinol, drwy gasglu, cofnodi, cadw, egluro a chyflwyno gwrthrychau a phethau a gwybodaeth gysylltiedig yr ystyrir eu bod yn cyfoethogi dealltwriaeth ac yn hyrwyddo gwaith ymchwil, waeth a ydynt yn gysylltiedig â Chymru ai peidio.

Ein Gweledigaeth

Yn 2007, bu Amgueddfa Cymru – National Museum Wales yn dathlu ei chan mlynedd cyntaf drwy edrych ymlaen at y can mlynedd nesaf. Bydd cyflawniadau a llwyddiannau'r ganrif ddiwethaf yn feincnod ar gyfer y dyfodol. Mae'r Amgueddfa eisiau parhau i ysbrydoli pobl i wneud synnwyr o'r byd am y can mlynedd nesaf.

Mae'r Amgueddfa a'i chasgliadau yn cael eu dal mewn ymddiriedolaeth ar gyfer y cyhoedd; felly, dylai'r cyhoedd gael mynegi eu barn am sut y cânt eu defnyddio. Mae'r ymrwymiad hwn i berchnogaeth gyhoeddus wirioneddol yn ganolog i'n gweledigaeth. Mae'r weledigaeth hanfodol hon yn tanategu ein cynllun cydraddoldeb, gan sicrhau ein bod yn cynnwys pob grŵp yn y ffordd rydym yn rheoli'r Amgueddfa.

Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus mawr yng ngwanwyn 2005 i gael sylwadau, safbwyntiau a dyheadau cymaint o'n rhanddeiliaid â phosibl am gynlluniau a dyheadau amlinellol y sefydliad ar gyfer y degawd nesaf a thu hwnt. Cafodd gwefan ymgynghorol ei chreu a chafwyd cyfarfodydd a llenyddiaeth ategol. Cafwyd adborth gan dros 1,000 o unigolion a sefydliadau. Mae safbwyntiau a barn y rhanddeiliaid wedi eu defnyddio wrth lunio ein cynlluniau ar gyfer y dyfodol, fel y noda'r cynllun strategol hwn ac rydym yn edrych ymlaen at weithredu trefniadau ymgynghori a chymryd rhan newydd i sicrhau ein bod yn parhau i greu a dylanwadu ar ddyfodol Amgueddfa Cymru - National Museum Wales ar y cyd â'n rhanddeiliaid.

Cyfuno gwerthoedd traddodiadol gydag uchelgeisiau newydd

Dros y blynyddoedd, mae'r Amgueddfa wedi magu enw da am ei hymrwymiad i addysg a rhagoriaeth. Dyma garreg sylfaen llwyddiant yr Amgueddfa fel sefydliad dysgu. Mae'n denu rhai o guraduron ac addysgwyr mwyaf proffesiynol a medrus Prydain, yn cydweithio ag ysgolion a phrifysgolion ac yn rhoi gwybodaeth yn ôl i'r cyhoedd y mae wedi'i chanfod am y casgliadau. Mae'n ceisio rhagori yn yr hyn oll a wna.

Dros y degawdau nesaf, bydd yr Amgueddfa yn cael ei chydnabod i'r un graddau hefyd am ei pherthnasedd i gymdeithas ac am ei harloesed. Dim ond rhan o'r agenda yw cynnwys cymunedau yng Nghymru nad oes ganddynt fynediad ar hyn o bryd i gasgliadau a chyfleusterau'r Amgueddfa, cynrychioli hunaniaethau diwylliannol amrywiol Cymru, hyrwyddo cynaliadwyedd yn lleol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol a chefnogi'r broses o greu gwlad gwirioneddol ddwyieithog. Bydd cymorth

a mewnbwn ein rhanddeiliaid yn hanfodol i'r ffordd y bydd y materion cyfoes hyn yn cael eu trafod a'u cyflwyno mewn ffyrdd newydd a heriol.

Mae ein datblygiad parhaus fel 'sefydliad dysgu' yn ganolog i hyn. Er mwyn cyflawni hyn, bydd angen i ni gyfuno rhagoriaeth yn y ffyrdd y rhannwn wybodaeth gynhenid y casgliadau cenedlaethol gyda'n datblygiad ni fel sefydliad sy'n parhau i ddysgu.

Byddwn yn cyflawni'r Weledigaeth hon drwy ganolbwyntio ein gwaith ar saith maes:

- datblygu gofod yr amgueddfeydd a dod â phrofiad yr ymwelwyr yn fyw
- cynnal casgliadau llewyrchus a gwneud y gorau ohonynt
- helpu ein hymwelwyr i wneud synnwyr o'r byd
- gwrando ar ein cynulleidfaoedd a phartneriaid a dysgu ganddynt
- cyfathrebu yn lleol ac yn rhyngwladol
- dod yn sefydliad sy'n dysgu ac yn adeiladu ar ei lwyddiannau
- adeiladu ein hadnoddau i ddarparu'r datblygiadau allweddol hyn i gyd.

Gwyddom y bydd hyn yn ein galluogi i wireddu ein Gweledigaeth, hynny yw, i fod yn amgueddfa ddysgu o'r radd flaenaf.

Nodau ac amcanion

Gweledigaeth Amgueddfa Cymru yw bod yn amgueddfa ddysgu o'r radd flaenaf. Ein nodau yw:

- creu amgueddfeydd byw lle mae'r casgliadau yn adrodd eu straeon yn fwy clir, a lle mae ymwelwyr yn profi bywyd y gorffennol a'r presennol ac yn archwilio amrywiaeth o bosibiliadau ar gyfer y dyfodol
- datblygu casgliadau llewyrchus sy'n gynaliadwy, yn tyfu a gwneud y gorau ohonynt
- canfod ffyrdd i wneud synnwyr o'r byd gan ddefnyddio amrywiaeth o gyfryngau sy'n addas i ddulliau dysgu amrywiol, fel bod gan bawb fynediad i'r casgliadau
- rhannu ein cynlluniau gydag ymwelwyr a datblygu'r ffyrdd yr ydym yn gweithio ar y cyd i ddarparu mynediad arwyddocaol i'r casgliadau i'r bobloedd amrywiol sy'n byw yng Nghymru

- tyfu drwy ddysgu gan sicrhau bod sgiliau dysgu yn ganolog i'n holl waith
- cyfathrebu ein neges fel bod Amgueddfa Cymru yn dod yn adnabyddus ledled y byd fel canolfan ddysgu o safon ryngwladol ac yn darparu gwell mynediad a chodi proffil lleol casgliadau cenedlaethol drwy ein gwaith gyda sefydliadau partner
- adeiladu ein hadnoddau fel bod gennym sylfaen gref a chadarn y gallwn ei defnyddio i wireddu ein Gweledigaeth ar gyfer y degawd nesaf a thu hwnt.

Bydd y blaenoriaethau hyn yn ein helpu i gyflawni ein Gweledigaeth yn ogystal â chefnogi gweledigaeth strategol Llywodraeth Cynulliad Cymru, a nodir yn y ddogfen *Cymru: Gwlad Well.*

Drwy ein casgliadau gwych, curadu rhagorol ac arbenigedd dysgu, mae Amgueddfa Cymru - National Museum Wales mewn sefyllfa berffaith i gryfhau goddefgarwch, dinasyddiaeth a pharch tuag at gymunedau amrywiol Cymru a'r Byd.

Am ragor o wybodaeth, ewch i www.amgueddfacymru.ac.uk

4. Ein Gweledigaeth ar gyfer Cydraddoldeb i Bobl Anabl

Dyma ein Cynllun Cydraddoldeb cyntaf i Bobl Anabl, mae'n dangos ein hymrwymiad i fynd i'r afael â chydraddoldeb i bobl anabl wrth i ni wneud

ein penderfyniadau a darparu ein gweithgareddau. Mae'n gwbl gydnaws â'n strategaeth Cydraddoldeb ac Amrywiaeth eang a'n cynlluniau unigol ar gyfer cydraddoldeb hiliol a rhywiol. Rydym wedi dewis cynlluniau gweithredu unigol ar gyfer pob agwedd oherwydd gallwn fonitro ein heffaith ar bob agwedd yn fwy effeithiol.

Ein hymrwymiad i fynd i'r afael â Chydraddoldeb i Bobl Anabl

Rydym yn ymrwymedig i hyrwyddo cyfle cyfartal i bobl anabl fel bod ganddynt fynediad cyfartal i'n holl safleoedd, amgueddfeydd a chasgliadau. Mae'r cynllun hwn yn ddatganiad o'n hymrwymiad ac yn dangos yn glir sut y byddwn yn gweithio dros y tair blynedd nesaf i gyflawni ein nod.

Byddwn yn dileu gwahaniaethu sy'n anghyfreithlon o dan Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995 drwy barhau i adolygu ein polisïau, arferion a gweithdrefnau fel nad ydynt yn effeithio'n andwyol ar unrhyw un oherwydd eu hanabledd. Drwy ymgorffori hyn i'n gwaith gyda'n partneriaid a'n prosesau caffael, byddwn yn disgwyl i eraill wneud yr un fath.

Byddwn yn dileu aflonyddu ar bobl anabl sy'n gysylltiedig â'u hanabledd drwy ein polisïau adnoddau dynol. Byddwn yn sicrhau bod hyn yn cael ei hyrwyddo drwy ein holl waith, a bod ein staff yn hollol ymwybodol o oblygiadau hyn iddynt.

Rydym wedi nodi nifer o gamau gweithredu penodol er mwyn hyrwyddo agweddau cadarnhaol tuag at bobl anabl. Rydym wedi ymrwymo i:

- Adolygu ein prosesau marchnata a chyfathrebu i sicrhau bod delweddau cadarnhaol o bobl anabl a'u galluoedd yn cael eu defnyddio yn ein deunydd a chyhoeddiadau hyrwyddo;

- Cyflawni'r symbol 'Tic Dwbl, Yn Gadarn O Blaid Pobl Anabl' ar gyfer prosesau adnoddau dynol;

- Darparu rhaglenni hyfforddiant a chodi ymwybyddiaeth o faterion sy'n ymwneud ag anabledd i feithrin diwylliant mewnol ac allanol sy'n gadarnhaol o blaid pobl anabl.

Byddwn yn annog mwy o bobl anabl i gymryd rhan mewn bywyd cyhoeddus drwy bennu camau gweithredu penodol yn ein cynllun gweithredu i ddenu a chynorthwyo pobl anabl i gael eu cynrychioli ar

amrywiaeth o gyrff partneriaid, yn cynnwys Bwrdd Ymddiriedolwyr yr Amgueddfa. Byddwn yn defnyddio ein dylanwad a gwaith gyda'n partneriaid i hyrwyddo negeseuon cadarnhaol, gan annog eraill i weld manteision amrywiaeth a chynrychiolaeth pobl anabl mewn uwch swyddi a swyddi cyhoeddus.

Rydym wedi nodi nifer o strategaethau allweddol i ddarparu cymorth wedi'i dargedu i bobl anabl. Rydym yn bwriadu ymchwilio i'r gwahaniaethau rhwng pobl anabl a phobl nad ydynt yn anabl o ran eu defnydd o'n gwasanaethau, ac yn gweithredu'n uniongyrchol i geisio goresgyn rhwystrau a chau unrhyw fylchau sydd wedi'u nodi.

Sail Tystiolaeth Anabledd

Anabledd – y safbwynt cenedlaethol

Er bod deddfwriaeth yn cynnwys cydraddoldeb i bobl anabl, mae pobl anabl yn parhau i fod yn un o'r grwpiau mwyaf eithriedig ym Mhrydain:

- Mae dros 10 miliwn o bobl yn y DU yn anabl[2]
- Dim ond 17% o bobl anabl sy'n cael eu geni'n anabl – mae'r lefel o anabledd yn cynyddu wrth fynd yn hŷn; er enghraifft, mae gan tua 10% o bobl rhwng 16 a 24 oed anabledd hirdymor o'i gymharu â 34% o bobl dros 50 oed. Mae hon yn broblem gan fod gan y DU boblogaeth sy'n heneiddio.
- Mae 21% o'r boblogaeth oedran gweithio yn bobl anabl, ond nid yw hanner ohonynt yn gweithio ac maen nhw'n llai tebygol o fod â chymwysterau. Mae pobl ifanc anabl yn llai tebygol o fod mewn addysg neu hyfforddiant.

Anabledd yng Nghymru

Gellir amcangyfrif y gyfran o bobl anabl a phobl sy'n byw gyda salwch hirdymor yng Nghymru o sawl ffynhonnell. Mae Cyfrifiad 2001, yr Arolwg

[2] Comisiwn Hawliau Anabledd

o'r Llafurlu, Arolwg Iechyd Cymru, y cyfweliad cartref yn Arolwg Cyflwr Tai Cymru, a'r Arolwg Byw yng Nghymru yn ffynonellau dibynadwy.

Amcangyfrifir bod y bobl sy'n byw yng Nghymru sydd ag anabledd neu salwch hirdymor wedi amrywio o 1 mewn 6 o'r boblogaeth gyffredinol (Arolwg Cyflwr Tai Cymru), i 1 mewn 3 (Arolygon Iechyd Cymru 1995 ac 1998).

Dangosodd Cyfrifiad 2001 bod gan bron i 1 mewn 4 o bobl (23.3 y cant) yng Nghymru salwch hirdymor cyfyngol. Roedd hyn bron yn 1 mewn 5 (18.4 y cant) yn achos pobl o oedran gweithio.

Mae'r ffigurau cyfatebol ar gyfer Lloegr yn dangos bod gan 17.9 y cant o bobl salwch hirdymor cyfyngol, ac roedd hyn yn 13.3 y cant yn achos pobl o oedran gweithio. Y ffigurau ar gyfer yr Alban oedd 20.3 y cant (yr holl bobl) ac 15.6 y cant (oedran gweithio); ac ar gyfer Gogledd Iwerddon roedd yn 20.4 y cant (yr holl bobl) ac 17.0 y cant (oedran gweithio).

Roedd yna wahaniaethau mawr yn lefelau salwch hirdymor rhwng yr awdurdodau lleol yng Nghymru. Roedd y lefelau uchaf (ar gyfer pob oedran) ym Merthyr Tudful (30.0 y cant), Castell-nedd Port Talbot (29.4 y cant), Blaenau Gwent (28.3 y cant), a Rhondda Cynon Taf (27.2 y cant). Roedd y lefelau isaf yng Nghaerdydd (18.8 y cant), Sir Fynwy (19.1 y cant), Sir y Fflint (19.2 y cant) a Bro Morgannwg (19.9 y cant).

Yr Arolwg o'r Llafurlu yw arolwg cartrefi rheolaidd mwyaf y wlad. Mae'n casglu gwybodaeth am sefyllfaoedd personol a gwaith pawb sy'n byw yn y cartrefi sampl.

Roedd Arolwg 2004 yn amcangyfrif bod yna 1,746,000 o bobl o oedran gweithio yng Nghymru, a bod 396,000 ohonynt wedi dweud eu bod yn anabl, gan roi cyfran o 22.7 y cant. Roedd y 396,000 yn cynnwys tri grŵp o bobl anabl: pobl oedd yn ystyried eu bod yn cydymffurfio â'r diffiniad a nodir yn y Ddeddf (78,000), pobl oedd yn ystyried bod ganddynt anabledd a oedd yn cyfyngu ar eu gallu i weithio (54,000), a phobl oedd yn ystyried bod ganddynt y ddau (264,000). Roedd cyfran y bobl o oedran gweithio a ddywedai fod ganddynt anabledd a oedd yn cyfyngu ar eu gallu i weithio (y 54,000 a'r 264,000) yn 18.2 y cant, sy'n agos i ffigur Cyfrifiad 2001 o 18.4 y cant.

Mae'r ffigur cyfatebol ar gyfer y DU yn nodi mai 14.9 y cant o bobl o oedran gweithio sy'n dweud bod ganddynt anabledd sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio.

Yn union fel y Cyfrifiad, roedd yna wahaniaethau mawr yn y lefelau rhwng awdurdodau lleol yng Nghymru. Roedd y lefelau uchaf o anabledd sy'n cyfyngu ar allu pobl i weithio (ar gyfer pobl o oedran gweithio) ym Merthyr Tudful (32.0 y cant), Blaenau Gwent (30.4 y cant), a Chaerffili (30.3 y cant); roedd y lefelau isaf ym Mhowys (16.3 y cant), Ceredigion (17.3 y cant), a Gwynedd (18.0 y cant).

Mae Arolwg Iechyd Cymru yn arolwg iechyd parhaus. Roedd Arolwg 2004 yn amcangyfrif bod 14 y cant o oedolion yn cael eu trin am arthritis, 13 y cant am salwch anadlu, 10 y cant am glefyd y galon (heb gyfri pwysedd gwaed uchel), 9 y cant am salwch meddwl, a 5 y cant am ddiabetes. Roedd 4 y cant yn cael eu trin (neu wedi'u trin) am ganser. Dywedodd 28 y cant bod ganddynt salwch hirdymor cyfyngol. Mae hwn yn uwch na ffigur cyffredinol y Cyfrifiad o 23.3 y cant oherwydd dim ond oedolion sy'n cael sylw yn Arolwg Iechyd Cymru tra bod y Cyfrifiad yn cynnwys pawb (a phlant sydd â lefelau isel o salwch ac anabledd). Mae ffigur Arolwg Iechyd Cymru o 28 y cant o fewn un y cant i ffigur y Cyfrifiad ar gyfer oedolion.

Does dim syndod i Arolwg Iechyd Cymru 2004 ddangos fod lefelau o salwch hirdymor cyfyngol yn cynyddu gydag oedran. Roedd gan 1 mewn 8 unigolyn rhwng 16 a 44 oed salwch hirdymor cyfyngol, traean o bobl rhwng 45 a 64 oed, a hanner y bobl 65 oed a hŷn.

Mae'r Arolwg Byw yng Nghymru yn un o'r prif ffynonellau gwybodaeth am gartrefi a chyflwr cartrefi yng Nghymru erbyn hyn. Dywedodd 18 y cant o'r bobl yn yr arolwg bod ganddynt salwch, anabledd neu wendid hirdymor. Dywedodd 85 y cant o'r ymatebwyr hyn bod eu hanabledd yn cyfyngu ar eu gweithgareddau dyddiol mewn rhyw ffordd (hynny yw, 15 y cant o'r holl bobl yn yr arolwg).

Yn unol â'r disgwyl, dangosodd yr Arolwg bod salwch hirdymor yn cynyddu'n sylweddol wrth fynd yn hŷn. Roedd y lefelau'n debyg rhwng dynion a menywod sy'n oedolion, ond roedd y gyfran o ddynion dros 45 oed oedd yn dweud bod ganddynt salwch, anabledd neu wendid hirdymor yn un neu ddau y cant yn uwch na'r menywod.

Roedd y ffigurau salwch hirdymor yn yr Arolwg Byw yng Nghymru yn isel o'u cymharu â'r ffigurau yn yr arolygon eraill (roedd ffigurau Arolwg

Cyflwr Tai Cymru hefyd yn isel). Efallai mai un o'r rhesymau am y ffigurau is yw nad oedd y cwestiwn wedi'i osod nesaf at gwestiynau eraill yn ymwneud ag iechyd yn yr holiadur. Hefyd, mae'r arolwg yn eithrio'r boblogaeth nad ydynt yn byw mewn cartrefi (er enghraifft, pobl sy'n byw mewn gofal preswyl) sydd â chyfraddau uwch o salwch hirdymor. Gall y ffigur hefyd gael ei effeithio gan y ffaith bod ymatebwyr yn ateb am iechyd aelodau eraill y cartref ac nid am eu hiechyd eu hunain yn unig.

Mae hyn yn golygu bod arolygon eraill (er enghraifft, y Cyfrifiad neu Arolwg Iechyd Cymru) yn well ffynonellau i amcangyfrif salwch ac anabledd yng Nghymru. Mae'r Arolwg Byw yng Nghymru yn arbennig o ddefnyddiol i draws-ddosbarthu salwch ac anabledd gyda newidynnau sy'n berthnasol i dai ac eraill fel hawlio budd-daliadau.

Roedd Arolwg Adnoddau Teulu 2004 a gynhaliwyd gan yr Adran Gwaith a Phensiynau yn amcangyfrif bod 23 y cant o gartrefi yng Nghymru yn hawlio budd-daliadau analluogrwydd neu anabledd. Yn Lloegr roedd y ffigur yn 15 y cant, 20 y cant yn yr Alban a 24 y cant yng Ngogledd Iwerddon.

I grynhoi, roedd gan bron i 1 mewn 4 o bobl Cymru (23.3 y cant) salwch hirdymor cyfyngol ac ar gyfer pobl o oedran gweithio roedd hyn bron yn 1 mewn 5 (18.4 y cant). Mae'r ffigurau hyn tua phump y cant yn uwch na ffigurau cyfatebol Lloegr; a thua thri y cant yn uwch na ffigurau cyfatebol yr Alban a Gogledd Iwerddon.

Mae cyfraddau cyflogaeth yn amrywio'n sylweddol rhwng y mathau o anabledd; maen nhw isaf ar gyfer pobl sydd â salwch meddwl ac anableddau dysgu. Ar hyn o bryd, mae 80% o bobl sydd â phroblemau iechyd meddwl yn ddi-waith.

Amgueddfa Cymru – National Museum Wales fel cyflogwr
Mae'r Amgueddfa yn ymrwymedig i arferion gorau wrth recriwtio, hyfforddi a chefnogi staff. Rydym yn annog ceisiadau am swyddi gan bobl anabl ac yn gallu gwneud y trefniadau angenrheidiol i helpu pobl anabl i ymgeisio. Rydym yn ceisio bod yn gyflogwr 'Tic Dwbl' ac yn cydnabod bod angen ystyried hawliau pobl anabl yn llawn ac yn deg ym mhob agwedd o gyflogaeth. Rydym yn ceisio cyflawni ein hymrwymiadau i gydraddoldeb pobl anabl drwy:

- Gyfweld â phob ymgeisydd ag anabledd sy'n dangos eu bod yn cyrraedd anghenion gofynnol y swydd, fel yr amlinellir hwy yn y

disgrifiad swydd, a darparu unrhyw gymorth angenrheidiol i'w galluogi i fynychu'r cyfweliad ac unrhyw asesiadau
- Gwneud pob ymdrech i sicrhau bod aelod staff yn cadw ei swydd os yw'n datblygu anabledd
- Sicrhau bod pob aelod o staff wedi'i hyfforddi i fod yn ymwybodol o anabledd ac yn gwybod ei gyfrifoldebau o dan y Cynllun hwn
- Sicrhau bod staff anabl yn cael mynediad cyfartal i hyfforddiant a chyfleoedd datblygu drwy ein mecanweithiau monitro a thrwy'r broses Cofnod Datblygu Personol
- Gwella'r broses o fonitro staff presennol ac ymgeiswyr am swyddi
- Gweithio â phartneriaid i gynorthwyo pobl anabl sydd eisiau dychwelyd i weithio
- Pennu mentrau gweithredu cadarnhaol lle mae ein gwaith monitro wedi nodi meysydd heb gynrychiolaeth ddigonol
- Pennu Polisi Gwirfoddoli i greu mwy o gyfleoedd gwirfoddoli i bobl anabl
- Parhau i weithio gyda phartneriaid i ddarparu lleoliadau profiad gwaith i fyfyrwyr anabl
- Adolygu ein cynnydd yn y camau gweithredu hyn yn flynyddol

Mae Amgueddfa Cymru – National Museum Wales yn cydnabod bod anghydraddoldeb i bobl anabl yn gallu cael effaith negyddol ar gyfleoedd bywyd unigolion yng Nghymru. Rydym yn ymrwymedig i nodi a lleddfu anghydraddoldeb i bobl anabl o bob math drwy ein swyddogaethau mewnol ac allanol, ac yn sicrhau ein bod yn casglu data cynhwysfawr, ansoddol a meintiol i lywio'n camau gweithredu i gefnogi cydraddoldeb i bobl anabl.

Prif Nodau ac Amcanion

Rydym yn pennu ein prif nodau yn ein cynllun cyntaf:

Ymgynghori

Mae ymgynghori yn rhan bwysig o ddarparu cydraddoldeb i bobl anabl. Byddwn yn parhau i gynnwys sefydliadau anabledd wrth adolygu ein harferion, ac yn monitro ymatebion a geir gan y sefydliadau hyn.

Cyfathrebu a Chyhoeddi

Rydym yn ceisio sicrhau bod y cyhoedd yn gallu cael gafael ar wybodaeth am gasgliadau gwaith a rhaglenni cyhoeddus yr Amgueddfa.

Rydym yn bwriadu sicrhau bod gwybodaeth hygyrch ar gael bob amser. Mae hyn yn golygu y byddwn yn ystyried materion fel fformat (e.e. print, braille, sain, gwefan, fideo gan ddefnyddio Iaith Arwyddion Prydain) ac iaith (e.e. arddull, symlrwydd, Cymraeg ac ieithoedd eraill) yn unol â'r Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd.

Print a dyluniad

Yn achos cyhoeddiadau corfforaethol, llyfrau ac arweinlyfrau ymwelwyr, dilynir canllawiau hygyrchedd yn ymwneud â theip, ffont, bylchiad, defnydd o liw a chyferbynnedd. Dilynir canllawiau dealltwriaeth o ran cynnwys, gan ystyried pwy sy'n debygol o ddarllen y cyhoeddiadau. Mae print statudol ar gael ar-lein. Mae fersiynau print mawr o arweinlyfrau ymwelwyr ar gael ar-lein.

Bydd cyfleusterau sy'n cynorthwyo anghenion penodol yn cael eu datblygu. Er enghraifft, mae canllawiau sain ar gael yn Big Pit ac Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd, mae adnoddau sain ac iaith arwyddion ar gael yn Amgueddfa Genedlaethol y Glannau, ac mae arwyddion Braille ar gael yn Sain Ffagan.

Mae tîm Dylunio'r Amgueddfa yn rhoi arweiniad i'r adrannau ar gynhyrchu gwybodaeth a chyhoeddiadau hygyrch ac yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am ganllawiau cyfredol ac adeiladu ar ofynion y Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd.

Testun

Mae staff wedi derbyn hyfforddiant i ysgrifennu labeli hawdd i'w darllen ar gyfer orielau ac ysgrifennu ar gyfer y we. Mae Swyddog Dwyieithrwydd yr Amgueddfa yn achrededig i ddefnyddio Cymraeg Clir.

Gall rhai cyhoeddiadau fod ar gael mewn fformatau gwahanol ar gais, e.e. print mawr, fersiynau sain.

Mae'r Amgueddfa'n ymwybodol mai Iaith Arwyddion Prydain yw iaith

gyntaf neu iaith ddewisol tua 3,000 o bobl fyddar yng Nghymru. Bydd yr Amgueddfa yn ceisio gweithio gyda'r cyrff perthnasol i wella darpariaeth ei gwasanaethau yn laith Arwyddion Prydain.

Marchnata

Mae strategaethau marchnata yn ystyried y gynulleidfa darged ac yn ystyried gofynion fel bod y wybodaeth ar gael yn hawdd a hygyrch mewn fformatau gwahanol. Mae fersiynau print mawr o ddeunyddiau marchnata ar gael. Rydym wedi mynd ati i gynyddu faint o wybodaeth i ymwelwyr sydd ar gael fel ffeiliau sain ar wefan yr Amgueddfa.

Cyfathrebu a'r Rhyngrwyd

Mae ein safle rhyngrwyd yn cyrraedd lefel AA WAI fel y nodir hi yn Neddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995 Adran II. Mae gan ein safleoedd rhyngrwyd a mewnrwyd lawer o opsiynau sy'n eu gwneud yn fwy hygyrch i ddefnyddwyr anabl. Mae'r rhain yn cynnwys opsiwn newid maint y ffont, opsiwn graffeg isel/dim graffeg, a thagiau alt ar gyfer delweddau, gellir defnyddio bysellau mynediad ar gyfer bylchau ffurflenni a llywio ac mae pob tudalen yn ddarllenadwy drwy raglen darllen sgrin. Defnyddir offer i gynnal profion ar bob tudalen sy'n asesu ein hygyrchedd i unigolion sydd ag amrywiaeth o namau ar y golwg, dallineb lliw a glawcoma. Caiff tudalennau eu creu gan ddefnyddio CSS ac rydym yn cyfeirio at ganllawiau W3C ar arferion gorau.

Yn dilyn yr adolygiad cyntaf o'n cynllun, byddwn yn:

- Dangos sut rydym wedi cynnwys pobl anabl a'u grwpiau cynrychiadol yn y penderfyniadau a wnaethom a'r rhai rydym am eu gwneud.
- Casglu tystiolaeth am yr hyn y gallwn ei wneud i fynd i'r afael â gwahanol anghenion pobl anabl a gyflogir gennym ni a holl ddefnyddwyr a defnyddwyr posibl yr Amgueddfa.
- Nodi'r rhwystrau sy'n atal pobl anabl rhag cymryd rhan, neu fanteisio ar weithgareddau a digwyddiadau'r Amgueddfa, a nodi camau gweithredu i oresgyn y rhwystrau hyn.
- Cyfathrebu ein cyfrifoldebau a'n disgwyliadau am gydraddoldeb i bobl anabl i'n staff, partneriaid a rhanddeiliaid.
- Monitro a gwerthuso ein cynnydd.
- Diwallu ein dyletswyddau cyfreithiol.

Rydym wedi strwythuro'r cynllun gweithredu o gwmpas ein swyddogaethau mewnol ac allanol. Mae rhan fewnol y cynllun yn cynnwys gwaith corfforaethol ar gyfer y swyddogaethau canlynol:

- adnoddau dynol (yn cynnwys recriwtio a hyfforddiant)
- cydraddoldeb ac amrywiaeth
- cynllunio corfforaethol a busnes
- ysgrifenyddiaeth y Bwrdd
- cyfathrebu a marchnata
- caffael a chontractio
- systemau ariannol
- rheoli safleoedd a chyfleusterau
- technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh)

Mae elfen allanol y cynllun wedi'i strwythuro i ddangos sut y gallwn fynd i'r afael â chydraddoldeb i bobl anabl a chynorthwyo i ddarparu amcanion y Cynllun Gweithredol:

Maes Blaenoriaeth Un

Creu amgueddfeydd byw lle mae'r casgliadau yn adrodd eu straeon yn fwy clir, a lle mae ymwelwyr yn profi bywyd y gorffennol a'r presennol ac yn archwilio amrywiaeth o bosibiliadau ar gyfer y dyfodol

Maes Blaenoriaeth Dau

Casgliadau llewyrchus sy'n ddeniadol, yn gynaliadwy ac yn tyfu.

Maes Blaenoriaeth Tri

Canfod llwybrau i wneud synnwyr o'r byd gan ddefnyddio amrywiaeth o gyfryngau sy'n addas i ddulliau dysgu amrywiol, fel bod gan bawb fynediad i'r casgliadau

Maes Blaenoriaeth Pedwar

Dysgu drwy rannu ein cynlluniau gydag ymwelwyr a datblygu'r ffyrdd yr ydym yn gweithio ar y cyd, i ddarparu mynediad arwyddocaol i'r casgliadau i'r bobloedd amrywiol sy'n byw yng Nghymru.

Maes Blaenoriaeth Pump

Cyfathrebu ein Gweledigaeth fel bod Amgueddfa Cymru – National Museum Wales yn cael ei chydnabod ledled y byd fel canolfan ddysgu o safon ryngwladol

Maes Blaenoriaeth Chwech

Tyfu drwy ddysgu gan ddathlu sgiliau dysgu a sicrhau eu bod yn ganolog i'n gwaith

Maes Blaenoriaeth Saith

Adeiladu ein hadnoddau fel bod gennym sylfaen gref a chadarn, y gallwn ei defnyddio i wireddu ein Gweledigaeth ar gyfer y degawd nesaf a thu hwnt

5. **Casglu Data**

Rydym yn cydnabod bod angen i ni adeiladu a chynnal sail dystiolaeth gref ar faterion anabledd sy'n berthnasol i'r Amgueddfa a Chymru. I gyflawni hyn, byddwn yn mabwysiadu dull systematig i fapio'r dystiolaeth feintiol ac ansoddol sydd ar gael, a nodi'r meysydd sydd angen gwaith ymchwil pellach.

Byddwn hefyd yn sicrhau bod unrhyw arolygon yr ydym yn eu comisiynu yn casglu gwybodaeth am anabledd, yn ogystal ag agweddau eraill ar amrywiaeth a chydraddoldeb. Byddwn yn lobïo'r Swyddfa Ystadegau Gwladol, Llywodraeth Cynulliad Cymru a darparwyr data eraill i wella ansawdd ystadegau, yn arbennig yn berthnasol i ddadelfennu data gan grwpiau amrywiaeth. Byddwn yn sicrhau bod trefniadau yn eu lle i gasglu gwybodaeth am recriwtio, datblygu a chadw staff anabl a staff nad ydynt yn anabl, ac ar fuddiolwyr ein Hamgueddfeydd, prosiectau a rhaglenni a'n cyflenwyr.

Byddwn yn defnyddio'r wybodaeth hon i sicrhau ein bod yn rhoi cyfle cyfartal i bobl anabl. Bydd y data hefyd yn llywio adolygiadau o'r cynllun, ac yn cyfrannu at waith paratoi cynlluniau dilynol.

6. Ymgynghori

Fel rhan o'r ymrwymiad parhaus hwn i ddatblygu fel 'Sefydliad Dysgu', mae'r Amgueddfa wedi ymgynghori'n eang â'i rhanddeiliaid presennol a gyda'r rheini nad ydynt yn rhan o'n gwaith ar hyn o bryd, ac mae eu safbwyntiau a barn wedi'u hystyried ar gyfer Gweledigaeth yr Amgueddfa ar gyfer y dyfodol.

Byddwn yn parhau i adeiladu ar y gwaith hwn drwy ymgysylltu mwy gydag amrywiaeth eang o grwpiau defnyddwyr sydd ag ymrwymiad cryf i osod anghenion amrywiol ein defnyddwyr ac ymwelwyr wrth wraidd ein holl waith. Yn unol â'r ymrwymiad hwn, rydym wedi penodi Cydgysylltydd Ymgynghori Cyhoeddus dros dro a fydd yn datblygu'r rhaglen o weithgarwch ymgynghori, yn unol â systemau Llywodraethu'r sefydliad a adolygwyd yn ddiweddar, a fydd yn sicrhau ein bod yn sefydliad sy'n ystyried anghenion ein defnyddwyr ym mhob agwedd o'n gwaith.

Rydym yn cydnabod bod anabledd yn amrywiol ac ni allwn wybod beth mae pobl anabl ei angen neu sut y gallwn eu helpu i wneud y gorau o wasanaethau'r Amgueddfa heb eu cynnwys nhw a'u grwpiau cynrychioladol yn ein prosesau cynllunio a phenderfynu. Rydym wedi ymrwymo i gynnwys pobl anabl mewn meysydd lle bydd ein gwaith yn cael yr effaith fwyaf ar eu gallu i gymryd rhan yn ein holl weithgareddau.

Mae ymgynghori bob tro'n rhan bwysig o'n gwaith, ond rydym yn cydnabod bod angen i ni nawr weithredu prosesau penodol er mwyn sicrhau bod anghenion pobl anabl yn cael eu hystyried, a bod dimensiynau eraill o amrywiaeth, megis ethnigrwydd, oed, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol a chrefydd neu gred, hefyd yn cael sylw. Bydd staff a rhanddeiliaid yn cymryd rhan lawn wrth ddarparu, gweithredu a monitro a gwerthuso ein cynllun (gweler y cynllun gweithredu).

Byddwn yn cyhoeddi adroddiadau ar ganlyniadau prosesau ymgynghori a chymryd rhan i ddangos yn glir sut mae pobl anabl a'u grwpiau cynrychiadol wedi dylanwadu ar waith cynllunio a phenderfynu'r Amgueddfa.

7. **Y Broses o Asesu'r Effaith ar Gydraddoldeb i Bobl Anabl**

Rydym yn ymrwymedig i fesur effaith polisïau, arferion a gweithdrefnau newydd a chyfredol ar bobl anabl drwy asesu effaith cydraddoldeb. Wrth asesu, byddwn yn:

- Pennu meini prawf clir ar gyfer mesur perthnasedd polisi, arfer neu weithdrefn i gyfle cyfartal ar gyfer pobl anabl.

- Blaenoriaethu a phennu amserlen i asesu'r holl bolisïau, arferion a gweithdrefnau presennol a rhai'r dyfodol yr ystyrir eu bod yn cael effaith ar bobl anabl.

- Casglu a dadansoddi data perthnasol i gynorthwyo gydag asesiadau effaith fel yr amlinellir yn adran xx ar gasglu tystiolaeth.

- Cynnwys ac ymgynghori â phobl anabl sy'n debygol o gael eu heffeithio gan bolisïau a rhaglenni o ddechrau'r prosesau datblygu a chynllunio.

- Adolygu a diwygio cynigion yn sgil casglu data am bobl anabl, ymgynghori â phobl anabl a'u cynnwys i sicrhau bod unrhyw effaith niweidiol yn cael ei lleihau.

- Darparu hyfforddiant a chymorth i'n staff i sicrhau eu bod yn asesu'r effaith ar gydraddoldeb gyda hyder a gwybodaeth.

- Ceisio darparu canlyniadau cadarnhaol i bobl anabl yn ein gwaith.

Er mwyn asesu effaith ein polisïau a rhaglenni ar bobl anabl, bydd angen i ni ddefnyddio'r wybodaeth ganlynol:

- data demograffig ac ystadegau eraill, yn cynnwys canfyddiadau'r cyfrifiad
- canfyddiadau gwaith ymchwil presennol
- cymariaethau gydag Amgueddfeydd a sefydliadau eraill sy'n gweithio yn ein sector
- data arolygon
- data monitro cydraddoldeb
- ymarferion casglu data unigol
- gwaith ymchwil wedi'i gomisiynu'n arbennig

Mae ein proses o asesu effaith ar gydraddoldeb wedi'i hamlinellu yn Atodiad C.

8. Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb i Bobl Anabl

Gan adeiladu ar y llynedd, rydym wedi cynhyrchu cynllun gweithredu manwl ar wahân sy'n nodi'r camau gweithredu yr ydym am eu darparu ar gydraddoldeb i bobl anabl dros y tair blynedd nesaf. Byddwn yn adolygu'r cynllun hwn, bob blwyddyn o leiaf, ac yn ei adolygu a'i ddiwygio'n briodol.

9. Adrodd ar Gynnydd y Cynllun Cydraddoldeb i Bobl Anabl

   Mae gofyn i'r Amgueddfa gyhoeddi adroddiad blynyddol sy'n crynhoi'r camau yr ydym wedi'u cymryd i fodloni'r Ddyletswydd Cydraddoldeb i Bobl Anabl, a hefyd i adrodd yn ôl ar gynnydd ein hasesiadau effaith a chynllun gweithredu cydraddoldeb. Bydd hefyd yn gyfle i ddathlu ein llwyddiannau hyd yma, yn ogystal ag amlygu unrhyw gamau gweithredu pellach sydd angen eu cyflawni.

   Bydd Grŵp Amrywiaeth yr Amgueddfa yn monitro gweithrediad y Cynllun Cydraddoldeb i Bobl Anabl. Ar ddiwedd bob blwyddyn, bydd y Swyddog Amrywiaeth, gyda chymorth y Grŵp Amrywiaeth, yn paratoi adroddiad sy'n manylu ar gynnydd yr Amgueddfa yn ei Gynllun Cydraddoldeb i Bobl Anabl. Bydd yn cael ei gyflwyno i'r Grŵp Cydweithredol a Bwrdd yr Ymddiriedolwyr ac yn cael ei gyhoeddi ar safleoedd mewnrwyd a rhyngrwyd yr Amgueddfa. Cyhoeddir y cyntaf o'r adroddiadau blynyddol hyn ddim hwyrach na 1 Rhagfyr 2009.

10. Cyhoeddi a Rhoi Cyhoeddusrwydd i'r Cynllun Cydraddoldeb i Bobl Anabl

Bydd Cynllun Cydraddoldeb i Bobl Anabl yr Amgueddfa yn cael ei gyfathrebu i'r staff, ymwelwyr a rhanddeiliaid eraill yn y ffyrdd canlynol:

- Cyfarfodydd Bwrdd Ymddiriedolwyr yr Amgueddfa
- Cyfarfodydd Grŵp Cydweithredol yr Amgueddfa
- Cyfarfodydd Grŵp Amrywiaeth yr Amgueddfa
- Cyfarfodydd Adrannol a sesiynau briffio i'r staff
- Safleoedd Mewnrwyd a Rhyngrwyd

- Adroddiadau blynyddol

Bydd fformatau amgen o'r Cynllun ar gael, yn cynnwys print mawr, sain a Braille. Os hoffech chi'r ddogfen hon mewn fformat amgen, cysylltwch â Swyddog Amrywiaeth yr Amgueddfa ar 029 20573125 neu claire.thomas@museumwales.ac.uk.

Cwynion

Dylai unrhyw un sydd â chŵyn yn erbyn y Cynllun Cydraddoldeb i Bobl Anabl ysgrifennu at Bennaeth yr Adran Adnoddau Dynol a fydd yn ymchwilio i'r mater.

Bydd ymateb cychwynnol yn cael ei anfon o fewn 5 diwrnod gwaith. Bydd ymateb llawn yn cael ei anfon o fewn 20 diwrnod gwaith ar ôl derbyn y gŵyn oni bai bod angen ymchwiliad pellach.

Os yw'n dod i'r amlwg yn ystod yr ymchwiliad nad yw agwedd o'r Cynllun Cydraddoldeb i Bobl Anabl wedi cydymffurfio â gofynion y ddyletswydd gyffredinol, yna bydd y polisi yn cael ei newid i sicrhau cydymffurfiad yn y dyfodol.

Gellir ymdrin â chwynion gan staff drwy weithdrefn gwyno'r Amgueddfa. Gall aelodau undebau hefyd ofyn i'w cynrychiolydd undeb am gymorth.

Mae'r Amgueddfa hefyd yn aelod o Expolink. Sefydliad annibynnol yw hwn y gall gweithwyr cyflogedig roi gwybod iddo am bryderon sydd ganddynt. Gall y rhain ymwneud â gweithgarwch troseddol, gwahaniaethu, bwlio neu aflonyddu. Ymdrinnir â galwadau yn hollol gyfrinachol.

Atodiad A

Amgueddfa Cymru – National Museum Wales

Swyddogaethau

- **Cyfarwyddwr Cyllid**
  - Cyllid
  - Mentrau

- **Cyfarwyddwr Cyfathrebu**
  - Y We ac Amgueddfa Rithwir
  - Y Wasg a Chysylltiadau Cyhoeddus
  - Marchnata
  - TG

- **Cyfarwyddwr Casgliadau ac Ymchwil**
  - Rheoli Casgliadau
  - Gwasanaethau Casgliadau
  - Dogfennau
  - Ffotograffiaeth

- **Cyfarwyddwr Gweithrediadau**
  - Adnoddau Dynol
  - Adeiladau ac Ystadau (yn cynnwys materion mynediad corfforol)
  - Polisïau/gweithdrefnau sy'n benodol i'r safle
  - Polisïau/gweithdrefnau Blaen y Tŷ
  - Uwchgynllunio

- **Cyfarwyddwr Dysgu a Rhaglenni**
  - Dysgu
  - Rhaglenni a Chyflwyno
  - Uned Partneriaethau

- **Cyfarwyddwr Sain Ffagan**
  - Polisïau/gweithdrefnau sy'n benodol i'r safle
  - Polisïau/gweithdrefnau Blaen y Tŷ
  - Datblygu
  - Uned Adeiladau Hanesyddol

Atodiad B

Asesu'r Effaith ar Gydraddoldeb - Rhestr o Bolisïau

Atodiad B
Rhestr Flaenoriaethau Asesu'r Effaith ar Gydraddoldeb

Polisi	Blaenoriaeth Asesu'r Effaith (Uchel, Canolig, Isel)*
Cyfrifoldeb Arweiniol: Cyfarwyddwr Cyffredinol	
Cynllun Corfforaethol	Uchel
Cynllun Datblygu	Uchel
Cynllun Gweithredol	Uchel
Polisi Ymgynghori	Uchel
Polisi Iechyd a Diogelwch	Uchel
Polisi Chwythu'r Chwiban	Uchel
Rheolaeth Prosiectau Mawr	Uchel
Cod Ymarfer ar Gwynion	Uchel
Cyfrifoldeb Arweiniol: Cyfarwyddwr Cyllid	
Atebolrwydd a Chyfrifoldeb	Isel
Rheolaeth Ariannol	Isel
Proses Cynllunio Cyllideb	Isel
Hysbysu ac Awdurdodi Cyllideb	Isel
Proffil Cyllideb	Isel
Monitro Cyllideb	Isel
Adroddiad Monitro Cyllideb Refeniw	Isel
Rheolaeth Cyllideb	Isel
Ymholiadau Adroddiad Alldro	Isel
Gor/Tan Wariant Cyllideb	Isel
Adrodd wrth Gynulliad Cenedlaethol Cymru	Isel
Rheolaeth Risg a Rheolaeth Mewnol	Isel
Anghenion Archwilio	Isel
Asedion a Chyfarpar	Isel
Atal Twyll a Llygredd	Isel
Adloniant, Anrhegion a Lletygarwch	Isel

* Gweithredir y camau a nodir fel blaenoriaeth Uchel yn 2008/09; gweithredir y rhai a nodir fel blaenoriaeth Ganolig yn ystod 2009/10; a gweithredir camau blaenoriaeth isel yn ystod 2010/11.

Polisi	Blaenoriaeth Asesu'r Effaith (Uchel, Canolig, Isel)*
Stociau a Storau	Isel
Collion	Isel
Trefniadau Bancio	Isel
Taliad Cyfrifon	Isel
Prosesi Taliadau	Isel
Taliadau Prydlon	Isel
Arian Mân	Isel
Teithio ag Ymgynnal	Isel
Archebu Mewnol	Isel
Enillion	Isel
Grantiau	Isel
Cronfeydd Preifat	Isel
Yswiriant	Isel
Cadw Cofnodion Ariannol	Isel
Caffaeliad	Uchel
Polisi Prynu	Canolig
Gofal Cwsmeriaid	Uchel
Trefn Desg Dalu	Canolig
Trefn Desg Dalu – Cyfrifoldebau Ychwnaegol i Arolygydd y Siop	Canolig
Derbyn Nwyddau	Canolig
Rheoli Stoc a Gweithrediadau Eraill	Isel
Diogelwch yn y Siop	Canolig
Culhad	Canolig
Cyfri Stoc	Isel
Y Drefn yn Achos Toriad Trydan	Isel
Trefn Tocyn Anrheg	Isel
Cyfrifoldeb Arweiniol: Cyfarwyddwr Gweithredu	
Y Drefn Recriwtio	Uchel
Gwasanaeth Di-Dor	Isel
Cyfnod Prawf	Isel
Cyflwyno Staff Newydd	Isel
Pennu ac Adolygu Graddfeydd	Uchel
Trefniadau Galw Allan	Isel
Cyflogi Gweithwyr Achlysurol	Canolig
Polisi Tâl	Uchel
Graddreydd Cyflog	Uchel
Pensiynau	Uchel
Cytundeb Dileu Swyddi a	Uchel

Polisi	Blaenoriaeth Asesu'r Effaith (Uchel, Canolig, Isel)*
Diswyddo Cyn Pryd	
Trefniadau Trosglwyddo Gorfodol	Isel
Trefniadau Trafnidiaeth	Isel
Mabwysiadu	Canolig
Gwyliau Blynyddol	Canolig
Gwyliau Banc	Canolig
Seibiant Gyrfa	Isel
Absenoldeb Esynedig	Isel
Y Drefn Oriau Hyblyg	Canolig
Absenoldeb Mamolaeth	Canolig
Tocynnau Gofal Plant	Canolig
Absenoldeb i Tadau Newydd	Canolig
Y Drefn Absenoldeb Arbennig	Canolig
Gweithio'n Hyblyg	Canolig
Y Drefn Gallu: Salwch	Uchel
Y Drefn Gallu: Perfformiad	Uchel
Y Drefn Adolygiad o Berfformiad a Datblygiad	Uchel
Y Drefn Datblygiad a Hyfforddiant Staff	Uchel
Y Drefn Rheoli Absenoldeb	Uchel
Polisi Alcohol a Chyffuriau	Isel
Y Drefn Ddisgyblu	Uchel
Trefn Apelio yn Erbyn Diswyddiad	Isel
Polisi Cydraddoldeb ag Amrywiaeth	Uchel
Y Drefn Gwynion	Uchel
Y Drefn Gadael	Isel
Y Drefn Feddygol	Uchel
Polisi Lles yn y Gweithle	Uchel
Gweithgarwch Gwleidyddol	Isel
Y Drefn ar Gwaith Preifat/Yngynghorol	Isel
Cydnabod Undebau	Isel
Y Drefn Profiad Gwaith	Canolig
Y Drefn Gwirfaddoli	Uchel
Llawlyfr Gofal Ymwelwyr	Canolig
Chwilio Bagiau	Uchel

Polisi	Blaenoriaeth Asesu'r Effaith (Uchel, Canolig, Isel)*
Cau	Isel
Diarddel	Uchel
Eiddo Coll	Isel
Dillad Digywilydd	Uchel
Cyfrifoldeb Arweiniol: Cyfarwyddwr Dysgu a Rhaglennu	
Polisi a Strategaeth Dysgu a Mynediad	Uchel
Polisi Amddiffyn Plant	Canolig
Y Rhaglen Digwyddiadau	Uchel
Cyfrifoldeb Arweiniol: Cyfarwyddwr Sain Ffagan: Amgueddfa Werin Cymru	
Pramiau yn yr Adeiladau Hanesyddol	Uchel
Cyfrifoldeb Arweiniol: Cyfarwyddwr Casgliadau ac Ymchwil	
Polisïau Rheolaeth Casgliadau	Uchel
Strategaeth Casgliadau	Uchel
Polisi Diogleu Data	Canolig
Polisi Rhyddid Gwybodaeth	Canolig
Polisi Ffotograffiaeth	Isel
Polisi Gweithio oddi-ar y Safle	Uchel
Cyfrifoldeb Arweiniol: Cyfarwyddwr Cyfathrebu	
Strategaeth Cyhoeddi	Canolig
Protocol y Cyfryngau	Isel
Polisi Ffilmio	Isel
Cynllun Iaith Gymraeg	Uchel
Datblygu Cynulleidfaoedd	Uchel
Strategaeth Marchnata	Uchel
Ymgyrchoedd Marchnata	Uchel
Ymchwil a Gwerthusiad	Uchel
Cais am Dempled (Marchnata)	Uchel
Strategaeth Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu	Uchel
Polisi Defnydd Rhyngrwyd	Canolig

Atodiad C

Templed Asesu'r Effaith ar Gydraddoldeb


Cam 1: Nodi polisïau
Paratoi rhestr o'r holl swyddogaethau, polisïau a gweithdrefnau a phennu'r dull ar gyfer eich Adran
Cam 2: Sgrinio pob polisi
Nodi prif amcanion pob polisi
Penderfynu os yw'r polisi yn berthnasol i gydraddoldeb
Na – diwedd y broses, adolygu yn y dyfodol
Ydy
Casglu a dadansoddi data
Cam 3: Blaenoriaethu a
Penderfynu os os ganddo berthnasedd U, C neu I i'ch
Cofnodi canfyddiadau a pharatoi cynllun gweithredu
Oes yna dystiolaeth o effaith niweidiol?
Na – sicrhau bod monitro yn digwydd, adolygu yn y dyfodol
Oes
Cam 4: Cynnal asesiad effaith
Dadansoddi data a thystiolaeth yn fanylach
Asesu'r effaith debygol
Ystyried opsiynau gwahanol a/neu lleihau'r effaith andwyol
Ymgynghori'n ffurfiol
Penderfynu ai diwygio a chamau gweithredu eraill
Gwneud trefniadau monitro/cymryd rhan
Cyhoeddi'r adroddiad

Asesu'r Effaith ar Gydraddoldeb – Rhestr Wirio Cynnydd

Cam 1: Nodi polisïau

- ☐ Wedi rhestru polisïau, gweithdrefnau a phrosiectau mawr
- ☐ Wedi deall sut mae'ch adran yn mynd i'r afael â'r dasg
- ☐ Wedi penderfynu pwy sy'n gyfrifol am sgrinio

Cam 2: Sgrinio

- ☐ Wedi penderfynu os yw'r polisi cydraddoldeb yn berthnasol i'r grŵp/grwpiau rydych chi'n ei/eu hystyried
- ☐ Wedi casglu a dadansoddi'n fras data perthnasol
- ☐ Wedi nodi bylchau mewn data neu wybodaeth
- ☐ Wedi cwblhau templed sgrinio a nodi camau gweithredu pellach
- ☐ Wedi penderfynu a oes angen asesiad llawn

Cam 3: Blaenoriaethu a chynllunio

- ☐ Wedi categoreiddio polisïau fel perthnasedd uchel, canolig neu isel
- ☐ Wedi trosglwyddo camau gweithredu i gynllun gweithredu, wedi ychwanegu dyddiadau ac wedi neilltuo cyfrifoldebau
- ☐ Wedi anfon copïau o'r templedi cynllunio a sgrinio gorffenedig i'r adran Adnoddau Dynol
- ☐ Wedi sicrhau bod polisïau sy'n berthnasol i gydraddoldeb yn cael eu monitro
- ☐ Wedi sicrhau bod unrhyw waith pellach sydd ei angen yn cael ei ymgorffori i gynllun yr Adran
- ☐ Wedi cynllunio i ddiweddaru eich polisïau gyda datganiad cynnydd

Cam 4: Cynnal asesiad effaith llawn

- ☐ Wedi dadansoddi eich data yn fanylach i nodi effeithiau
- ☐ Wedi ymgynghori a/neu gynnwys grwpiau cydraddoldeb priodol
- ☐ Wedi ystyried newidiadau i'ch polisi a chamau gweithredu eraill
- ☐ Wedi trosglwyddo unrhyw gamau gweithredu hirdymor i gynllun yr Adran
- ☐ Wedi paratoi adroddiad asesu effaith llawn, wedi'i gyhoeddi ar safle eich mewnrwyd ynghyd â'r polisi ac wedi anfon copi i'r swyddfa Adnoddau Dynol ar gyfer ei gyhoeddi'n allanol

Asesu Effaith Cydraddoldeb – Templed Sgrinio

Bydd y templed hwn yn eich helpu i asesu perthnasedd cydraddoldeb polisi, gweithdrefn, prosiect neu swyddogaeth ar gyfer un neu fwy o'ch grwpiau cydraddoldeb.

Beth yw'r polisi (enw a disgrifiad byr)?
Ar gyfer pa grŵp y mae'r broses sgrinio hwn (nodwch bob un sy'n gymwys)? ☐ Oed ☐ Anabledd ☐ Rhyw ☐ Hil ☐ Crefydd ☐ Cyfeiriadedd Rhywiol
A yw'r cyfrifoldeb am y polisi yn cael ei rannu ag unrhyw un arall, yn fewnol neu'n allanol (os yw, dylech chi eu cynnwys yn y broses sgrinio)?
Pwy sydd ag awdurdod i wneud newidiadau i'r polisi?

	Gweithgaredd	**Enghreifftiau o gwestiynau perthnasol i'w gofyn**	**Sylwadau**
1.	Nodi amcanion y polisi	➢ Beth yw diben y polisi?	

	Gweithgaredd	Enghreifftiau o gwestiynau perthnasol i'w gofyn	Sylwadau
2.	Penderfynu os yw'r polisi yn berthnasol o ran cydraddoldeb i'r grŵp/grwpiau yr ydych yn ei/eu hystyried (Os ydych chi'n sicr nad yw'r polisi yn berthnasol o ran cydraddoldeb, nodwch pam gan orffen y broses (ar y pwynt yma).	➢ A yw'r polisi yn cynnwys neu'n effeithio ar ymwelwyr, gweithwyr cyflogedig neu bobl eraill? ➢ A oes yna gyfle i ddefnyddio neu newid y polisi er mwyn hyrwyddo cydraddoldeb rhwng grwpiau, neu gefnogi'r dyletswyddau cydraddoldeb cadarnhaol?	

	Gweithgaredd	Enghreifftiau o gwestiynau perthnasol i'w gofyn	Sylwadau
3.	Casglu a dadansoddi data (Os nad oes gennych chi ddigon o ddata i'ch helpu i nodi effeithiau'r polisi, yna bydd rhaid i chi gasglu'r data hwnnw er mwyn parhau i'r cam nesaf)	➢ Pa ddata ydych chi'n ei ddefnyddio i bennu'r effaith ar y grwpiau rydych chi'n sgrinio ar eu cyfer? ➢ Efallai bydd y mathau canlynol o wybodaeth yn ddefnyddiol: ○ Data demograffig ac ystadegau eraill ○ Canfyddiadau ymchwil mewnol ac allanol diweddar ○ Canlyniadau ymgynghoriadau / arolygon ○ Canlyniadau data monitro cydraddoldeb ○ Dadansoddi cwynion	
4.	Nodi unrhyw effeithiau cadarnhaol neu niweidiol (Bydd angen i chi fod wedi dadansoddi digon o ddata dilys a dibynadwy i bennu hyn)	➢ A ydych chi wedi nodi fod yna effaith fawr ar rai pobl? ➢ Neu fod yna effaith fach ar lawer o bobl? ➢ Pa effeithiau niweidiol ydych chi wedi'u nodi?	

Crynodeb o Ganfyddiadau									
Grŵp	Perthnasol o ran cydraddoldeb?			A ellir ei ddefnyddio i helpu i fodloni dyletswyddau cadarnhaol?			Tystiolaeth o effaith niweidiol? (amherthnasol os nad yw'n berthnasol o ran cydraddoldeb)		
	Ydy	Nac ydy	Ddim yn siŵr	Ydy	Nac ydy	Ddim yn siŵr	Ydy	Nac ydy	Ddim yn siŵr
Oed	☐	☐	☐	☐	☐	☐	☐	☐	☐
Anabledd	☐	☐	☐	☐	☐	☐	☐	☐	☐
Rhyw	☐	☐	☐	☐	☐	☐	☐	☐	☐
Hil	☐	☐	☐	☐	☐	☐	☐	☐	☐
Crefydd	☐	☐	☐	☐	☐	☐	☐	☐	☐
Cyfeiriadedd Rhywiol	☐	☐	☐	☐	☐	☐	☐	☐	☐

Asesu'r Effaith ar Gydraddoldeb – Templed Asesu Llawn

Gellir defnyddio'r templed hwn i gofnodi eich cynnydd yn cwblhau'r asesiad ar effaith ar gydraddoldeb llawn polisi, gweithdrefn neu brosiect ar gyfer un grŵp cydraddoldeb a bydd yn ddefnyddiol pan fyddwch yn ysgrifennu eich adroddiad.

Beth yw'r polisi (enw a disgrifiad byr)?
Ar gyfer pa grŵp/grwpiau cydraddoldeb y mae'r asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb llawn hwn? (ticiwch un bocs yn unig) ☐ Oed ☐ Anabledd ☐ Rhyw ☐ Hil ☐ Crefydd ☐ Cyfeiriadedd Rhywiol

Cam	Gweithgaredd	Enghreifftiau o faterion perthnasol	Sylwadau
1	Nodi amcanion y polisi (Dylech fod â rhywfaint o'r wybodaeth hon o'r broses sgrinio)	➢ Beth yw cyfrifoldebau penodol yr Amgueddfa o ran y polisi? ➢ Pwy sy'n gweithredu'r polisi? ➢ Pwy sy'n gyfrifol am y polisi? ➢ Beth yw'r canlyniadau penodol yr ydych yn gobeithio eu gweld o'r polisi? ➢ Pa feini prawf fyddwch chi'n ei ddefnyddio i fesur cynnydd tuag at y canlyniadau hyn?	

2	Ystyried y dystiolaeth	➢ Pa wybodaeth sydd gennych chi i asesu bod y polisi o fantais i bob grŵp? ➢ A yw'r wybodaeth sydd ar gael yn ddigon manwl fel bo modd dadansoddi gwahaniaethau rhwng categorïau unigol? ➢ A yw'r wybodaeth yn gyfredol, perthnasol a dibynadwy? ➢ A oes angen i chi gynnal ymgynghoriad mewnol neu allanol anffurfiol yn y cam hwn? ➢ A oes yna unrhyw Unedau neu sefydliadau eraill a fyddai eisiau ymuno â chi i gomisiynu data neu ymchwil newydd neu ymgynghoriadau?	
3	Asesu'r effaith debygol	➢ A yw'ch dadansoddiad o'r polisi yn dangos effaith niweidiol bosibl ar rai grwpiau? ➢ A oes unrhyw wahaniaethau sylweddol yn y data o ran ystadegau, ac nid yn sgil siawns? ➢ A oes unrhyw ffactorau eraill a allai helpu i egluro'r effaith niweidiol? ➢ A ellir diwygio'r polisi i hyrwyddo cyfle cyfartal neu ddiwallu'r dyletswyddau cadarnhaol yn well?	

4	Ystyried opsiynau amgen	➢ A fyddai newidiadau i'r polisi, neu'r ffordd y caiff ei roi ar waith yn dileu neu leihau'r effaith yn sylweddol? ➢ Pa newidiadau gellid eu cyflwyno i leihau'r effaith niweidiol a nodwyd uchod? ➢ Pa newidiadau allech chi eu cyflwyno i hyrwyddo cyfle cyfartal? ➢ A oes yna agweddau i'ch cynigion a ellid eu newid, neu a allech chi gymryd mesurau ychwanegol, i leihau neu ddileu effaith niweidiol ar grŵp arbennig, heb effeithio ar amcanion cyffredinol y polisi? ➢ A allai hyn anfanteisio grŵp arall yn anfwriadol? ➢ A fyddech chi'n gallu cyfiawnhau hyn, o bwyso a mesur pob dim?	

5	Ymgynghori'n ffurfiol	➢ A ydych chi wedi nodi'r holl grwpiau sydd wedi'u heffeithio gan y polisi, yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol? ➢ Pa sefydliadau ac unigolion sy'n debygol o fod â buddiant cyfreithiol yn y polisi? ➢ Pa ddulliau ymgynghori sydd fwyaf tebygol o lwyddo i ddenu'r bobl yr ydych yn ceisio'u cyrraedd? ➢ A fu ceisiadau blaenorol i ymgynghori â chymunedau arbennig yn aflwyddiannus? Os felly, pam, a beth allwch ei wneud i oresgyn y rhwystrau hyn? ➢ A oes adnoddau ar gael gennych i annog grwpiau sydd wedi bod yn anodd eu cyrraedd i gymryd rhan yn llawn? ➢ Sut fydd gwybodaeth, cyn ac ar ôl ymgynghori, ar gael?	

6	Penderfynu a oes angen adolygu neu ddiwygio'r polisi yn sgil yr ymgynghoriad	➢ A yw'r ymgynghoriad yn dangos y bydd y polisi yn cael effaith niweidiol ar grŵp (neu grwpiau) arbennig? ➢ A yw'n debygol o'i gwneud hi'n anodd hyrwyddo cyfle cyfartal neu berthynas dda rhwng gwahanol grwpiau? ➢ A ellir diwygio'r polisi neu gymryd mesurau ychwanegol fel ei fod yn cyflawni ei amcanion, ond heb beryglu effaith niweidiol? ➢ Beth yw prif ganfyddiadau eich ymgynghoriadau, a pha mor arwyddocaol ydynt?	
7	Gwneud trefniadau monitro (Mae angen i chi fonitro effaith yr holl bolisïau sy'n berthnasol i gydraddoldeb.)	➢ Sut fyddwch chi'n monitro'r polisi? ➢ Pa fath o ddata a gesglir a pha mor aml bydd yn cael ei ddadansoddi? (Argymhellir bob blwyddyn) ➢ A fydd y broses monitro yn cynnwys dulliau ansoddol, fel arolygon, neu ymgynghoriadau dilynol? ➢ Sut fydd effeithiau'r polisi ar gyfle cyfartal a pherthynas dda yn cael eu monitro? ➢ Pa feini prawf fydd yn cael eu defnyddio i asesu'r rhain? ➢ Sut fydd unrhyw bryderon yn cael eu hystyried wrth adolygu'r polisi?	

8	Cyhoeddi adroddiad yr asesiad	➢ Bydd adroddiad asesu'r effaith ar gydraddoldeb da yn: o Cynnwys y wybodaeth orau sydd ar gael ar y pryd o Clir, cryno, cytbwys ac yn gymesur â pherthnasedd y polisi o ran cydraddoldeb o Dogfen hunangynhaliol o Defnyddio iaith blaen a chlir	

Unrhyw wybodaeth neu sylwadau eraill:
Dyddiadau perthnasol:
Enw a manylion cyswllt yr unigolyn cyfrifol: